# Gwiriwch Ef!

## Sut i ddefnyddio Gwiriwch Ef!





**Cyfryngau i wirio ansawdd gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer pobl ag anabledd dysgu**

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Croeso | 3 |
| Dewis y cyfrwng iawn | 5 |
| Beth sydd ym mhob cyfrwng? | 6 |
| Cysylltu | 7 |

# Croeso



Bydd y pecyn hwn yn eich helpu i wirio ansawdd:



- Gwybodaeth a ysgrifennir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu
- Fersiynau Hawdd eu Deall o wybodaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu



Mae Hawdd ei Ddeall yn fwy na dim ond geiriau hawdd.

Mae'n bwysig bod gwybodaeth hawdd ei deall yn hawdd dod o hyd iddi, yn hawdd i'w darllen, yn hawdd i'w deall ac yn hawdd i'w defnyddio.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r pecyn hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi cael ei wneud gan Anabledd Dysgu Cymru, Mencap Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan.




Mae'r mudiadau hyn hefyd wedi cyhoeddi llawlyfr o'r enw Hawdd a Chlir.




Bydd y llawlyfr yn eich helpu i wneud gwybodaeth ysgrifenedig clir ar gyfer pawb.

Gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn i wirio:



- Llythyrau




- Taflenni




- Fersiynau Hawdd eu Deall o ddogfennau mwy fel adroddiadau ac ymgynghoriadau



Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn defnyddio'r pecyn hwn gyda ffrind neu gydweithiwr. Gall fod yn anodd ateb yr holl gwestiynau ar eich pen eich hun. Mae'n haws gwirio gyda rhywun arall.



**Anne Collis**

**Mawrth 2012**

# Dewis y cyfrwng iawn

Y mae **3** chyfrwng yn y pecyn hwn.

Edrychwch ar y ddogfen rydych chi am ei gwirio.




**Ai llythyr yw hwn?**

→ Defnyddiwch y cyfrwng **coch** sy'n cael ei alw'n **Llythyrau**




**Ai taflen yw hon?**

→ Defnyddiwch y cyfrwng **porffor** sy'n cael ei alw'n **Taflenni**




**Ai fersiwn Hawdd ei Ddeall o ddogfen fawr, fel adroddiad neu ymgynghoriad yw hwn?**

→ Defnyddiwch y cyfrwng **gwyrdd** sy'n cael eu galw'n **Fersiynau Hawdd eu Deall**

# Beth sydd ym mhob cyfrwng?

Mae gan bob cyfrwng:



- restr o gyfarwyddiadau
- setiau o gwestiynau
- cyfarwyddiadau sy'n dweud sut i sgorio
- taflen sgorio



Bydd arnoch angen set newydd o gwestiynau a thaflen sgorio newydd ar gyfer pob dogfen.



Gallwch lungopïo'r taflenni yn y pecyn hwn. Gallwch brintio copïau o'r DVD sy'n dod gyda'r pecyn hwn.



Gallwch ofyn i Anabledd Dysgu Cymru e-bostio'r taflenni i chi.

# Cysylltu

© Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru / Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan / Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan 2012

Awdur: Anne Collis a Bethany Lewis

Cafodd Gwiriwch Ef! ei ddatblygu fel rhan o Brosiect Hyfforddi Gwybodaeth Hawdd ei Deall ac Ymwybyddiaeth o Anabledd Dysgu 2010-13. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Anabledd Dysgu Cymru.

Ffoniwch 029 2068 1160

E-bostiwch enquiries@learningdisabilitywales.org.uk

Gall Gwiriwch Ef! gael ei lawrlwytho yn www.easyreadhealthwales.org.uk

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First

mencap cymru
Llais anabledd dysgu
The voice of learning disability

Llywodraeth Cymru
Welsh Government